

Cyngor Sir

Man Cyfarfod
Cyfarfod Hybrid - Zoom - Neuadd y Sir

Dyddiad y Cyfarfod
Dydd Iau, 7 Mawrth 2024

Amser y Cyfarfod
10.30 am

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
Stephen Boyd
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk



Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad Cyhoeddi

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

AGENDA

1.	YMDDIHEURIADAU
-----------	-----------------------

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2.	COFNODION
-----------	------------------

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2023, 24 Ionawr 2024 a 25 Ionawr 2024 fel cofnodion cywir.
([Tudalennau 1 - 32](#))

3.	DATGANIADAU O DDIDDORDEB
-----------	---------------------------------

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

4.	CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD
-----------	---------------------------------

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

5.	CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD
-----------	---------------------------------

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

6.	CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD
-----------	---------------------------------

6.1. Cwestiynau i'r Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach gan Richard Miles

A fyddai'n bosibl i ni gael canolfan ailgylchu ar gyfer ardal Crughywel, mae'n ofnadwy bod yn rhaid i ni wneud taith gron o 30 milltir i gael gwared ar sbwriel na ellir ei gymryd yn y casgliadau wythnosol o ymyl y ffordd.

Byddai'n cynnwys Crughywel, Llangatwg, Llanbedr, Llangrwyney, Llangenni, Llangynidr.

(I Ddilyn)

6.2. Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach gan Bob Jones

Pam bo ni'n gorfod dioddef casgliadau bin bob 3 wythnos, nid yw'r biniau'n ddigon mawr a phan fyddwch yn gwneud cais i gael bin mwy, ry'ch chi'n cael yr ateb NA !!! Ond mae'r cyngor yn gallu gwastraffu arian ar feintiau enfawr o stwff gwallgof nad yw'n berthnasol i bobl Powys !!!

(I Ddilyn)

6.3. Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach gan Alan Austin

Tua 5 mlynedd yn ôl, drafftiodd Cyngor Sir Powys Memorandwm o Gytundeb yn nodi'r sail y gellid rhannu ei gyfrifoldeb dros gynnal a gwella hawliau tramwy gyda Chynghorau Tref a Chymuned, a fyddai'n gofyn am gymorth gwirfoddolwyr lleol. A fwriedir datblygu'r dull hwn ac, os felly, pa gamau sydd wedi'u cynllunio?

(I Ddilyn)

6.4. Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Powys Wyrddach gan James Prothero

A all yr aelod portffolio gadarnhau bod y codiad ym mhrisiau tocynnau bws o 10% yn mynd yn ei flaen?

(Tudalennau 33 - 34)

7.	PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2024/25
-----------	---

Cymeradwyo penderfyniad Treth y Cyngor a gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25.
(Tudalennau 35 - 58)

8.	TROSGLWYDDIADAU REFENIW
-----------	--------------------------------

Ystyried trosglwyddiadau'r gyllideb sydd angen eu cymeradwyo gan y Cyngor.
(Tudalennau 59 - 60)

9.	FFYRDD NEWYDD O WEITHIO A CHYFARFODYDD Y CYNGOR - AROLWG AELODAU 2023
-----------	--

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Trawsnewid a Democrataidd.

(Tudalennau 61 - 70)

10.	CANLLAW CYFRYNGAU CYMDEITHASOL AR GYFER AELODAU
------------	--

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Trawsnewid a Democrataidd.
(Tudalennau 71 - 90)

11.	DATGANIAD POLISI CYFLOGAU 2024/25
------------	--

Ystyried y Datganiad Polisi Cyflogau.

(Tudalennau 91 - 116)

12.	PENODIADAU I GYRFF ALLANOL
------------	-----------------------------------

Gwneud penodiadau i'r cyrff allanol canlynol

1. Partneriaeth Tref Y Drenewydd – swydd wag ar gael aelod y Drenewydd
2. Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) – swydd wag ar gyfer aelod Sir Frycheiniog
3. Gweithgor Cynllun Datblygu Lleol – swydd wag ar gyfer aelod Sir Frycheiniog

13.	RHYBUDD O GYNNIG - CEISIO GWERTHUSIAD TECHNEGOL O OSOD CEBLAU PWER TAN DDAEAROL O BARCIAU YNNI
------------	---

Cydnabyddir yn eang bod angen mwy o ffermydd gwynt a solar ac ynni niwclear ar y DU yn y blynyddoedd i ddod i gyrraedd targedau ynni carbon isel a bydd y galw ar y grid ond yn cynyddu po fwyaf y bydd trafndiaeth, diwydiant a gwresogi domestig yn cael eu trydaneiddio i leihau allyriadau carbon.

Dywedodd y corff masnachu ynni adnewyddadwy RenewableUK Cymru fod angen i Gymru gynyddu ei phŵer gwynt bedair gwaith mewn ychydig dros ddegawd er mwyn aros ar y trywydd iawn i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru i sicrhau bod trydan yn 100% adnewyddadwy erbyn 2035. (<https://www.renewableuk-cymru.com/wp-content/uploads/Future-Energy-Wales-The-Critical-Role-of-Welsh-Wind-Power.pdf>)

Yn ystod y misoedd diwethaf mae Green GEN Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer dwy set o beilonau i gysylltu Parciau ynni arfaethedig ym Mhowys â'r grid cenedlaethol ymhellach i ffwrdd. Gall cynlluniau o'r fath fod yn ddadleuol yn lleol a byddant yn cael eu penderfynu fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) gan gorff a benodwyd gan y Llywodraeth PCAC (Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru).

Mae cofnod gan Lywodraeth Cymru sy'n dweud "Mae diweddarau grid Cymru'n hanfodol os ydym am gael system ynni sy'n addas i'r diben yn y tymor hir. Mae ein polisi cynllunio'n nodi y dylid gosod llinellau o dan y ddaear lle bynnag y bo modd" i leihau'r effaith weledol.

Mae hwn yn gynnig rhesymol y ceir cafeat yn ei gylch gan mai dyma'r ateb cost-ffeithiol gorau a mwyaf priodol sydd ar gael. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cydnabod y bydd amgylchiadau lle mai ceblau uwchben newydd fydd yr ateb cywir. Mae'r sector yn amlygu bod y "fanyleb dechnegol ar gyfer ceblau tanddaearol yn debygol o fod yn fwy sylweddol, yn gostus ac yn amharu ar yr amgylchedd i'w cynnal a'u cadw a'u trwsio", ond maent wedi ymrwmo i weithio gyda'r llywodraeth i ddod o hyd i ffordd dderbyniol ymlaen.

Ym mis Tachwedd, dywedodd y Gweinidog dros y newid yn yr hinsawdd, Julie James AS, y byddai sefydlu a yw aredig cebl yn dechnegol bosibl ar gyfer y llinellau pŵer mwyaf yn bwysig er mwyn deall a ellid mabwysiadu 'tanddaearu' yn ehangach. Mae hwn yn ddull synhwyrol cyn i gynnigion o'r fath gael eu cyflwyno i'w penderfynu. Fel y cyfryw:

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:

1. Galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu astudiaeth annibynnol, gyda threialon cymharol fel y bo'n briodol, i ymarferoldeb technegol aredig cebl yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer y llinellau pŵer mwyaf i wasanaethu'r parciau ynni sy'n deillio o gynlluniau ynni adnewyddadwy'r Llywodraeth ar gyfer y sir, er mwyn lleihau effeithiau gweledol parhaus.

Cynigiwyd: y Cyng Jake Berriman

Eiliwyd: y Cyng Glyn Preston

Asesiad Ariannol

Roedd y cynnig yn gofyn i Lywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth/treialon annibynnol. Ni ymddengys bod angen unrhyw beth pellach o'r cynnig hwn, felly ceir ychydig iawn o effaith ariannol, er efallai y bydd angen amser swyddogion i helpu i baratoi'r ohebiaeth i Lywodraeth Cymru, gellir talu'r costau hyn o gyllidebau gwasanaethau presennol.

14. RHYBUDD O GYNNIG - GWYLIAU YSGOL

Rydym yn galw ar y Cyngor i lobïo Llywodraeth Cymru a gwrthwynebu'r gwyliau haf Ysgol byrrach arfaethedig.

Rydym yn galw ar hyn am sawl rheswm gan gynnwys:

Yr effaith andwyol y bydd hyn yn ei chael ar economi wledig Powys a'r effaith enfawr y bydd yn ei chael ar Sioe Frenhinol Cymru.

Y diffyg tystiolaeth y bydd y cynnig yn cael canlyniad cadarnhaol i'n dysgwyr.

Cynigiwyd: y Cyng Gareth D Jones

Eiliwyd: y Cyng Gwynfor Thomas

Asesiad ariannol

Mae'r cynnig hwn yn cynnig lobïo Llywodraeth Cymru a gellir ei reoli o fewn yr adnoddau presennol. Bydd swyddogion yn gallu darparu ar gyfer cefnogi'r gweithgaredd hwn fel rhan o'u rôl.

15. RHYBUDD O GYNNIG - EFFEITHIAU'R RHYFEL YN GAZA

Mae'r Cyngor yn nodi

Y trais heb ei ddatrys a pharhaus o dros 76 mlynedd a'i gyd-destun yn y digwyddiad trasig a ddigwyddodd ar Hydref 7fed. Yn arwain at y golled annerbyniol o fywyd a'r drosedd o gymryd gwystlon a ddigwyddodd ar Hydref 7fed.

Y lladd ac anafu anghymesur a heb ei debyg o sifiliaid o fewn Tiriogaethau Meddianedig Palesteina – Yn cynnwys bywydau newyddiadurwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr dinesig ac achub.

Y dinistr digynsail a di-hid o seilwaith sifil ar draws Llain Gaza - Gan gynnwys gwersylloedd ffoaduriaid, henebion, safleoedd treftadaeth, addoldai, mynwentydd, ysbytai, prifysgolion ac ysgolion.

Ar ôl i Dde Affrica gyflwyno achos yn erbyn Israel i'r Llys Cyfiawnder Rhyngwladol ynghylch gweithredoedd a datganiadau honedig a wnaethpwyd gan lywodraeth Israel a swyddogion milwrol, mae mesurau dros dro wedi'u rhoi ar waith yn erbyn Israel. Yn ogystal, mae ymchwiliad i honiadau credadwy o hil-laddiad hefyd wedi'i gychwyn gan y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol.

Cynhaliwyd y "Gynhadledd Dychwelyd i Gaza" ar Ionawr 28ain. Roedd yn cynnwys aelodau amlwg o Lywodraeth Israel yn rhannu llwyfan ag unigolion yn eiriol dros lanhau ethnig Gaza a hyrwyddo adeiladu aneddiadau Israel ar dir a feddiannwyd yn flaenorol gan gymunedau Gaza oedd wedi'u dinistrio.

Mae methiant ymddangosiadol llywodraeth Israel i fynd i'r afael â'r datganiadau radical a wnaethpwyd yn ystod yr achlysur hwn yn groes i'r Mesur Dros Dro a osodwyd ar Israel gan y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol.

Y datganiadau parhaus a phenodol o fwriad i gynnal gweithredu milwrol tebyg yn Rafah, yr un fath ag ardaloedd ymhellach i'r gogledd.

Bod Rafah, a ddatganwyd yn flaenorol yn 'Ardal Ddiogel' ar gyfer y boblogaeth sifil, ar hyn o bryd yn gartref i dros 1.7 miliwn o sifiliaid sydd wedi'u dadleoli'n fewnol (85% o gyfanswm y boblogaeth). Yn nodi hefyd bod 47% o'r boblogaeth yn blant.

Bod swyddfa'r Cenhedloedd Unedig yn Genefa yn nodi bod 70% o seilwaith sifil wedi'i ddinistrio neu ei ddifrodi'n ddifrifol yn Gaza a bod afiechyd yn lledu wrth i'r system iechyd "chwalu" gyda 13 o 36 o ysbytai'n unig yn rhannol weithredol. Ac mae 25% o'r boblogaeth yn mynd i'r afael â lefelau trychinebus o ansicrwydd bwyd.

Mae costau enfawr cefnogi ffoaduriaid mewn gwrsylloedd neu drydydd gwledydd yn gosod baich ar y gymuned fyd-eang, ac yn uniongyrchol ar Bowys pan fo'r DU yn rhan o gynllun cynnal.

Buddsoddiadau cronfa bensiw Powys mewn trefniadau cyfun sy'n cefnogi'r diwydiant arfau.

Mae nifer y gwylnosau heddwch ar gynnydd mewn trefi ledled Powys, a'r protestiadau torfol parhaus sy'n cael eu cynnal yn rhyngwladol, yn annog rhoi'r gorau i elyniaeth er mwyn atal newyn ac afiechyd rhag achosi cynnydd amlwg mewn cyfraddau marwolaethau.

Mae'r Cyngor yn credu

Y dylid cael cadoediad ar unwaith a pharhaus i alluogi dychwelyd yn ddiogel y gwystlon sy'n weddill, rhyddhau Palestiniaid a gedwir o dan gadw gweinyddol, ac ehangu mynediad at gymorth dyngarol o fewn Llain Gaza.

Y dylai Israel anrhydeddu ei hymrwymiad i ganiatáu i bobl Gaza ddychwelyd i'w heiddo ac atal newyn ac afiechyd trwy hwyluso ailadeiladu preswylfeydd, seilwaith sifil a systemau gofal iechyd ar draws Gaza, y mae wedi'u dinistrio'n eang.

Yn dilyn dyfarniad y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol a gyhoeddwyd ar Ionawr 25ain, mae gan bob parti a lofnododd Gonfensiynau Genefa rwymedigaeth benodol a diymwad i atal "hil-laddiad tebygol" rhag digwydd yn Gaza. Wrth roi pwysau trwy ddirymu unrhyw ddeunydd cyson (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) a chefnogaeth ariannol a ddarparwyd tuag at ymddygiad milwrol Israel.

Mae'r ansefydlogrwydd cynyddol yn y Dwyrain Canol yn niweidiol i lywodraethu byd-eang sefydlog. Mae'n niweidio masnach byd-eang trwy'r Môr Coch ac yn cynyddu costau llongau, sy'n debygol o achosi chwyddiant. Bydd hyn, yn ei dro, yn ymestyn yr argyfwng costau byw sy'n wynebu trigolion Powys ac yn cynyddu costau benthyca ar gyfer gwariant y cyngor.

Ei bod yn groes i bolisi 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' Powys a 'Nodau Datblygu Cynaliadwy, i fuddsoddiadau'r cyngor a chronfeydd pensiwn ddarparu cymorth i'r diwydiant arfau ac felly'n benderfyniad buddsoddi anghynaliadwy.

Fel llw sy'n meddiannu, mae gan Israel ddyletswydd ddyngarol glir a chyfrifoldeb cyfreithiol i holl drigolion Tiriogaethau Meddianedig Palesteina. Mae'n rhaid iddynt fod yn atebol am gyflawni'r rhwymedigaeth hon o dan gyfraith ryngwladol.

Nid yw er lles gorau dinasyddion Gaza a'r Deyrnas Unedig i sefydlu cynllun adsefydlu ar gyfer ffoaduriaid Gaza o fewn tiriogaethau'r DU. Mae dehongliad y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol yn awgrymu y gallai gweithred o'r fath gael ei hystyried fel un sy'n hwyluso glanhau ethnig, sydd â goblygiadau anffafriol ar y naill ochr a'r llall.

Mae'r Cyngor yn galw ar y Pwyllgor Pensiynau a Buddsoddiadau i dynnu unrhyw fuddsoddiadau uniongyrchol yn y diwydiant arfau yn ôl ac i weithio i leihau lefel y buddsoddiad yn y diwydiant o fewn buddsoddiadau cyfun.

Cynigiwyd gan y Cyng Pete Roberts

Asesiad Ariannol

Nid oes gan y Cyngor fuddsoddiadau uniongyrchol yn y diwydiant arfau.

Mae'r Gronfa Bensiwn yn buddsoddi gan ddefnyddio cronfeydd cyfun (megis drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)) ac efallai'n anuniongyrchol, drwy fuddsoddiadau cyfun, "gallai" ddod i gysylltiad â chwmnïau o'r fath. Ar hyn o bryd nid yw PPC yn gweithredu unrhyw bolisiau gwaharddol mewn perthynas ag unrhyw stociau y gall fuddsoddi ynddynt.

Ni fyddai cost newid o'r fath gan y Gronfa Bensiwn yn cael ei thalu gan y Cyngor.

16. RHYBUDD O GYNNIG - CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

Mae Cyngor Sir Powys yn galw ar Lywodraeth Lafur Cymru i oedi ac ailystyried y 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy'

Mae Cyngor Sir Powys yn galw ar Lywodraeth Lafur Cymru i oedi ac ailystyried yr ymgynghoriad 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy: cadw ffermwyr i ffermio', o ystyried cryfder teimladau presennol y diwydiant. Mae'n amlwg bod y ffermwyr ledled Cymru sydd wedi mynychu digwyddiadau 'sioe deithiol' Llywodraeth Cymru, a'r rhai a gynhaliwyd gan yr undebau ffermio, yn gwrthod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig.

O ystyried pwysigrwydd y sector ffermio i economi Powys mae'n bwysig cael cynllun cymorth y dyfodol yn iawn; mae parhau â'r ymgynghoriad presennol ar gynllun diffygiol yn gamgymeriad a bydd yn arwain at rwystredigaeth a drwgdeimlad difrifol gan ffermwyr ledled Cymru.

Mae effaith gronol newidiadau i bolisi amaethyddol yng Nghymru, o Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (NVZs) i derfynu contractau Glastir, ynghyd â'r gwallau yng Nghynllun Cynefin Cymru a pharhad TB mewn gwartheg yn golygu bod y sector Cymraeg o dan bwysau cynyddol.

Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu fel a ganlyn:

Mae Cyngor Sir Powys yn credu ei bod yn beth doeth i oedi'r ymgynghoriad, adnewyddu ymgysylltiad ag undebau'r ffermwyr cyn cysylltu â'r sector amaethyddol unwaith y bydd diwygiadau difrifol wedi'u gwneud i gynnig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'r sefyllfa bresennol yn anghynladwy.

Cynigwyd gan y Cynghorydd Sir Lucy Roberts
Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir. Geoff Morgan

Aseiad ariannol

Mae'r cynnig hwn yn cynnig llobio Llywodraeth Cymru a gellir ei reoli o fewn yr adnoddau presennol. Bydd swyddogion yn gallu darparu ar gyfer cefnogi'r gweithgaredd hwn fel rhan o'u rôl.

-